

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol: Hysbysiadau preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer setiau data'r Cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi i Lywodraeth Cymru is-set o'r wybodaeth sydd ganddynt am blant mewn angen sy'n cael gwasanaethau, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r is-set hon i fonitro perfformiad awdurdodau lleol a chyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi ehangach gan gynnwys, er enghraifft, gwaith sy'n ymwneud â datblygu polisi a datblygu arfer gorau.

Caiff yr is-set hon ei phennu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, a bydd ar ffurf cyfres o bigion allan o ddata ar lefel plant unigol (heb yr enwau), a elwir yn "Gyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth" ac yn "Ymarfer Casglu Data am Blant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cymru".

Mae'r is-set o ddata ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal a chymorth yn cynnwys rhif unigryw disgybl ar gyfer pob plentyn, os yw ar gael. Bydd mynediad i rif unigryw disgybl plant mewn angen yn galluogi Llywodraeth Cymru i gysylltu'r data â chofnodion addysgol ac asesu gwybodaeth am nodweddion a chyrhaeddiad addysgol y plant dan sylw. Wrth gysylltu'r data, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gweld enw'r plentyn sydd yn y data am addysg wrth brosesu neu ddadansoddi data o'r is-set ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal a chymorth, ac ni fydd Llywodraeth Cymru chwaith yn defnyddio'r wybodaeth sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn, er mwyn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â phlentyn unigol neu er mwyn adnabod unrhyw blentyn unigol mewn adroddiad.

## Prosesu data'r Cyfrifiad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016, bydd y rheolydd data (sef Llywodraeth Cymru yn achos y data ynghylch Plant mewn Angen/Plant sy'n Derbyn Gofal a drosglwyddir i Lywodraeth Cymru) yn pennu'r dibenion y bydd y data personol – sef data am unigolion byw, sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod yr unigolion hynny – yn cael ei brosesu ar eu cyfer a'r modd y bydd y gwaith prosesu'n cael ei gyflawni.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Diogelu Data 1998, ac yn enwedig yr egwyddor gyntaf ynghylch diogelu data, bydd testunau'r data, neu'r unigolion sy'n destun data personol, yn cael gwybod pwy yw'r rheolyddion data, y dibenion y maent yn bwriadu prosesu'r data personol ar eu cyfer, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith o brosesu'r data personol yn deg, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw drydydd partion y gallai'r data gael ei drosglwyddo iddynt. Bydd hynny'n cael ei wneud drwy gyfrwng dogfen sy'n cynnwys y wybodaeth dan sylw, a elwir yn hysbysiad preifatrwydd ac a ddylai ymdrin yn benodol â'r agweddau hynny ar y data ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal a chymorth y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn sicrhau bod testun sy'n ymdrin â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn yr hysbysiadau preifatrwydd a gyflwynir ganddynt, ac mae'r ddogfen hon yn darparu [testun](#) wedi'i ddiweddarau a ddylai gael ei gynnwys yn yr hysbysiadau preifatrwydd hyn o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Mae'r testun sydd wedi'i ddiweddarau yn adlewyrchu'r modd y gallai'r data gael ei ddefnyddio yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth gliriach am y modd y caiff y data ei brosesu gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn ymdrin â chynnwys unrhyw hysbysiadau preifatrwydd sy'n ymwneud â rôl yr awdurdodau lleol ei hunain fel rheolwyr data; yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n gyfrifol am hyn o

hyd, ond dylech ystyried y nodyn isod. Yn ogystal, gall awdurdodau lleol barhau i wneud fel y gwelant yn dda o ran sut y maent yn darparu unrhyw hysbysiad(au) preifatrwydd, gan ystyried unrhyw amgylchiadau anodd neu arbennig o sensitif, cyhyd â bod yr hysbysiad yn cael ei roi i blant sydd dros 12 oed a'u rhieni neu'u gofalwyr, ac i rieni neu ofalwyr plant sydd dan 12 oed, a chyhyd â bod yr hysbysiad yn cynnwys y [testun a nodir yn y canllawiau hyn](#), naill ai ar ffurf atodiad ar wahân neu drwy ymgorffori'r testun mewn hysbysiad sy'n bodoli eisoes.

Mae gofyn i awdurdodau lleol anfon copi o'r hysbysiad y maent yn bwriadu ei ddefnyddio at y diben hwn i [stats.pss@wales.gsi.gov.uk](mailto:stats.pss@wales.gsi.gov.uk)

Nodwch fod y [testun a nodir yn y canllawiau hyn](#) yn ymdrin â'r gofynion cyfredol ac y bydd yn cael ei ddiweddarau a'i ailddosbarthu yn y dyfodol os bydd angen.

## I'w nodi

Er bod y setiau data Plant sy'n derbyn gofal a chymorth a Phlant mewn Gofal (PmG) yn ddienw, mae'r ffaith bod y RhUD (Rhif Unigryw'r Disgybl) wedi'i gynnwys yn y Cyfrifiad PmA yn golygu mai data personol yw'r wybodaeth a anfonir at Lywodraeth Cymru, felly dylid ymdrin â hyn yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Hefyd, barn Llywodraeth Cymru yw bod natur a chyfuniad yr wybodaeth yn y casgliad PmG yn golygu mai data personol yw hwn.

Felly mae'n bwysig bod hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru yn cael ei roi i bob plentyn (a/neu eu rhieni neu eu gofalwyr) sydd mewn un neu'r ddau o'r setiau data Plant sy'n derbyn gofal a chymorth a PmG. Oherwydd bod diffiniad cyfredol y garfan Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn gyfyngedig i'r plant hynny ag achos agored am 3 mis ar 31 Mawrth bob blwyddyn, nid yw'n ddigonol i gymryd bod y garfan Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn cynnwys yr holl blant sydd yn y set data PmG.

I grynhoi, a er mwyn ymdrin â rôl Llywodraeth Cymru fel rheolwr data y setiau data Plant sy'n derbyn gofal a chymorth a PmG y mae'n eu derbyn, bod pob plentyn (a/neu eu rhieni neu eu gofalwyr) sy'n rhan o'r casgliad Plant sy'n derbyn gofal a chymorth neu PmG, neu'r ddau ohonynt, yn cael copi o'r testun Llywodraeth Cymru sydd yn y [cyfarwyddyd hwn](#).

## **Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer plant sy'n cael gwasanaethau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, sy'n ymdrin â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru**

Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad i ddata am blant mewn angen sy'n cael gwasanaethau gan awdurdodau lleol. Mae gennych chi, fel rhiant neu ofalwr plentyn o'r fath, neu fel plentyn sydd dros 12 oed, yr hawl i gael gwybod am y modd y bydd y data hwn yn cael ei brosesu a'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru. Caiff y wybodaeth honno ei chrynhoi isod, a gellir gweld gwybodaeth fwy manwl o lawer ar:

<http://wales.gov.uk/docs/statistics/privacy-notice-children-need-cy.pdf>

## **Pa ddata y mae gan Lywodraeth Cymru fynediad iddo?**

Yn ôl y gyfraith, rhaid i awdurdodau lleol roi i Lywodraeth Cymru fanylion am blant mewn angen sy'n cael gwasanaethau ganddynt, a bydd y manylion hynny'n cynnwys:

- gwybodaeth bersonol a gwybodaeth bersonol sensitif amdanoch chi (neu'ch plentyn), megis dyddiad geni, rhyw, grŵp ethnig, statws o ran anabledd a gwybodaeth arall am iechyd;
- manylion sylfaenol am y gwasanaeth a ddarperir i chi (neu'ch plentyn) a pham y caiff y gwasanaeth ei ddarparu;
- gwybodaeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gymharu perfformiad plant mewn angen â pherfformiad pob plentyn arall o ran addysg.

Fodd bynnag, **ni** fydd y data a anfonir i Lywodraeth Cymru yn cynnwys eich enw chi (nac enw eich plentyn).

## **Sut y bydd y data'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru?**

Bydd y data a anfonir i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ganddi er mwyn:

- mesur pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn darparu eu gwasanaethau i chi (neu'ch plentyn);
- hybu gwelliannau i'r gwasanaethau hynny;
- dyrannu arian i awdurdodau lleol ac eraill; neu
- hybu ymchwil ehangach i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu i chi (neu'ch plentyn) neu eraill.

**Ni** fydd y data a anfonir i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ganddi er mwyn:

- cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â chi (neu'ch plentyn);
- eich adnabod chi (neu'ch plentyn) mewn unrhyw adroddiadau.

Bydd y data a anfonir i Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw'n ddiogel ganddi, a dim ond dan reolaeth lem y bydd yn cael ei rannu ag eraill. Ni fydd byth yn cael ei rannu mewn modd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl eich adnabod chi (neu adnabod eich plentyn).

## **Rhagor o wybodaeth**

Gellir gweld rhagor o wybodaeth sy'n esbonio'r hysbysiad hwn yn fanylach ar:

<http://wales.gov.uk/docs/statistics/privacy-notice-children-need-cy.pdf>

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y modd y bydd data amdanoch chi (neu am eich plentyn) yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, cysylltwch â Thîm Casglu Data Llywodraeth Cymru yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Tîm Casglu Data Llywodraeth Cymru  
Ystafell 2-002, CP2, Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
E-bost: [stats.pss@wales.gsi.gov.uk](mailto:stats.pss@wales.gsi.gov.uk)

19 Ebrill 2017